# DOGFEN YMGYNGHORI STATUDOL




## Ysgol Chwilog

## 19 Hydref – 30 Tachwedd 2022

# Cynnwys


| Adran | Disgrifiad | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| | Rhagair | 3 |
| 1 | Cyflwyniad | 4 |
| 2 | Yr Ymgynghoriad | 4 |
| 2.1 | Ymgynghori gyda disgyblion | 6 |
| 2.2 | Sut i Ymateb i'r Ymgynghoriad | 6 |
| 3 | Gwybodaeth Gefndirol | 7 |
| 3.1 | Cais am newid | 7 |
| 3.2 | Cais am gyllid | 7 |
| 3.3 | Cabinet Cyngor Gwynedd | 7 |
| 3.4 | Proses statudol | 7 |
| 4 | Y Sefyllfa Bresennol | 8 |
| 4.1 | Dyraniad cyllidol | 8 |
| 4.2 | Gwybodaeth am Anghenion Dysgu Ychwanegol | 8 |
| 4.3 | Ansawdd a safonau mewn addysg | 9 |
| 4.4 | Cryfderau a Gwendidau'r Sefyllfa Bresennol | 9 |
| 4.5 | Ardal Chwilog | 10 |
| 5 | Achos dros newid | 12 |
| 5.1 | Datblygiadau tai newydd | 12 |
| 5.2 | Cynnydd yn niferoedd disgyblion | 12 |
| 6 | Gwerthuso Opsiynau | 12 |
| 6.1 | Cymharu Opsiynau | 13 |
| 7 | Y Cynnig | 15 |
| 7.1 | Crynodeb o'r Cynnig | 15 |
| 7.2 | Ansawdd yr Addysg | 16 |
| 7.3 | Capasiti ysgol, maint dosbarthiadau ac ystod oedran | 16 |
| 7.4 | Dyraniad cyllidol | 17 |
| 7.5 | Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | 17 |
| 7.6 | Amgylchedd Ddysgu | 18 |
| 7.7 | Asesiadau Effaith y cynnig | 18 |
| 7.8 | Manteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig | 20 |
| 7.9 | Risgiau Posibl | 21 |
| 8 | Crynodeb o'r cynnig | 21 |
| 9 | Egluro'r broses statudol a manylion ymgynghori | 21 |
| 10 | Amserlen Arfaethedig | 23 |

## Rhagair

Mewn cyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd ar **19 Gorffennaf 2022,** cymeradwyodd y Cabinet y bwriad i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95, sef cynnydd o dros 25% o'r capasiti presennol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Bydd yr ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal rhwng **19 Hydref a 30 Tachwedd 2022,** yn seiliedig ar y bwriad i weithredu'r cynnig ar 1 Medi 2023.

Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i chi gyflwyno eich barn fel y gellir ei ystyried cyn gwneud penderfyniad. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn cyflwyno adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd.

Mae copi o'r ddogfen hon, a phapurau cefndirol eraill ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg a bydd copïau caled o'r holl ddogfennaeth hefyd ar gael ar gais i'r Swyddfa Moderneiddio Addysg drwy e-bostio moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru neu ffonio **01286 679247**.

**SYLWER** – dylid anfon unrhyw sylwadau ar y ddogfen ymgynghori statudol at y Swyddfa Moderneiddio Addysg erbyn **13:00 ar ddydd Mercher, 30 Tachwedd 2022**. Mae manylion sut i ymateb wedi ei nodi yn **rhan 2** o'r ddogfen.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ymateb.

Yn gywir,



Garem Jackson
**Pennaeth Addysg**

## 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig cynyddu capasiti yr ysgol o 65 i 95 o ddysgwyr drwy ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog i fod yn weithredol 1 Medi 2023. Mae'r ystyriaeth yma o ganlyniad i ragolygon cynnydd yn niferoedd dysgwyr yr ysgol.

Mae niferoedd dysgwyr Ysgol Chwilog wedi cynyddu'n gyson ers nifer o flynyddoedd, a mae'r ysgol wedi cyrraedd ei chapasiti llawn o 65 o ddysgwyr ers 1 Medi 2022.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Chwilog wedi gweld dyfodiad stad o dai newydd yn y pentref sydd bellach wedi cartrefu nifer helaeth o deuluoedd ifanc Cymraeg eu hiaith, a mae caniatâd cynllunio wedi ei roi ar gyfer dwy stâd arall o dai yn y pentref, all arwain at gyfanswm o hyd at 39 o dai ychwanegol yn Chwilog dros y blynyddoedd nesaf. Rhagwelir y bydd hyn yn arwain at gynnydd pellach yn yr angen am lefydd yn Ysgol Chwilog.

O ganlyniad, mae'r Cyngor o'r farn fod angen darparu mwy o lefydd yn yr ysgol i gwrdd â'r cynnydd yn nifer y dysgwyr.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r ffactorau y tu ôl i'r cynnig, y broses ymgynghori ar y cynnig, ynghyd â'r broses o wneud penderfyniadau.

### Y Cynnig sy'n Destun i'r Ymgynghoriad Statudol hwn yw:

Cynyddu capasiti yr ysgol o 65 i 95 o ddysgwyr drwy ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog i fod yn weithredol 1 Medi 2023

## 2. Yr Ymgynghoriad

Yn unol a chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (011/2018) bydd yr ymgynghoriad ar y cynnig yn rhedeg am gyfnod o 42 diwrnod ac yn cael ei gynnal rhwng **19 Hydref a 30 Tachwedd 2022.**

Bydd y ddogfen ymgynghori hon yn cael ei dosbarthu i'r ymgynghorai canlynol yn unol â chanllawiau Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (011/2018):

| Gofynion y Cod Trefniadaeth 011/2018 | Dosberthir i... |
|---|---|
| Awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni; | Cyngor Gwynedd sy'n cyflwyno'r cynnig |
| Unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys, lle bo'n briodol, awdurdod lleol yn Lloegr) y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno - gan gynnwys, yn achos darpariaeth AAA ddynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod disgyblion ag AAA ynddi; | - |
| Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni; | Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru |
| Unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni; | - |
| Corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun cynigion; | Corff Llywodraethwyr Ysgol Chwilog |

| | |
|---|---|
| Cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynnig, ym marn y cynigydd, yn debygol o effeithio arnynt; | Ysgol Abererch, Ysgol Bro Plenydd, Ysgol Llangybi ac Ysgol Llanystumdwy. |
| Gweinidogion Cymru; | Gweinidogion Cymru |
| Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol y Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir neu y bwriedir eu gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion; | AC Etholaeth Dwyfor-Meirionnydd<br>Mabon ap Gwynfor AM<br>ACau rhanbarthol ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru<br>Cefin Campbell MS<br>Jane Dodds MS<br>Eluned Morgan AS<br>Joyce Watson AS<br>AS Etholaeth Dwyfor-Meirionnydd<br>Liz Saville Roberts AS |
| Estyn; | Owen Evans Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| Undebau'r athrawon ac undebau staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun cynigion; | Cynrychiolwyr ASCL; NEU; NAHT; NASUWT; UCAC; UNSAIN |
| Y Consortiwm Addysg Ranbarthol perthnasol; | Arwyn Thomas – Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion; | Andy Dunbobbin - Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru |
| Unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion; | Cyngor Cymuned Llanystumdwy |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin; | Cylch Meithrin Chwilog |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo'r rhain yn bodoli; | Mudiad Meithrin – Arbenigwyr Blynyddoedd Cynnar<br>Hwb Teuluoedd Gwynedd |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth AAA, unrhyw gyrff iechyd neu gyrff trydydd sector perthnasol â buddiant yn y cynigion; | Cynrychiolydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol; | Ysgol Glan y Môr |
| yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg. | Comisiynydd y Gymraeg |
| Arall | Cynghorydd Rhys Tudur<br>Cynghorydd Richard Glyn Roberts<br>Cynghorydd Jina Gwyrfai |

Bydd y ddogfen ymgynghori hon yn cael ei chyhoeddi ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg a bydd copïau caled ar gael ar gais o'r Swyddfa Moderneiddio Addysg.

Bydd gwybodaeth gefndirol hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg a bydd copïau caled i'w cael a'r gais. Mae'r wybodaeth yn cynnwys:

- Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
- Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i blant Gwynedd
- Asesiadau Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol
- Asesiad Llesiant Ysgol Chwilog
- Asesiadau Effaith ar y Gymuned, Ansawdd a Safonau Addysg, Trefniadau Teithio Ysgol Chwilog
- Adroddiad Cabinet a Thaflen Benderfyniad 19 Gorffennaf 2022

Os ydych yn dymuno derbyn y ddogfen hon ar ffurf wahanol, neu os oes gennych gwestiynau eraill am y cynnig, cysylltwch â'r Swyddfa Moderneiddio Addysg drwy e-bostio moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru.

## 2.1 Ymgynghori gyda disgyblion

Gwneir trefniadau i sicrhau ein bod yn derbyn barn plant a phobl ifanc sy'n mynychu'r ysgol drwy gynnal sesiynau dynodedig gyda grŵp o ddisgyblion o'r ysgol gyda chymorth y pennaeth a swyddog o'r Adran Addysg. Mae fersiwn o'r ddogfen ymgynghori ar gyfer plant i'w gweld ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg ynghyd â ffurflen ymateb/holiadur er mwyn rhoi'r cyfle i bob disgybl ymateb i'r ymgynghoriad.

## 2.2 Sut i Ymateb i'r Ymgynghoriad

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy gwblhau'r ffurflen ymateb a'i dychwelyd i:

**E-bost:** moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru

**Post:** Swyddfa Moderneiddio Addysg
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Neu trwy lenwi'r Ffurflen Ymateb ar-lein

**Nodyn** - Rhaid i bob ymateb, boed drwy'r post neu e-bost, gyrraedd Pencadlys y Cyngor erbyn **13:00 o'r gloch ar ddydd Mercher, 30 Tachwedd 2022.**

**Mae'n bwysig nodi na fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau i'r cynnig. Dim ond ar ôl cyhoeddi rhybudd statudol y bydd gwrthwynebiadau yn cael eu cofnodi.**

Bydd y sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol yn cael eu hystyried gan Gabinet Cyngor Gwynedd cyn gwneud penderfyniad ar y camau nesaf. Bydd y Cabinet yn penderfynu parhau â'r cynnig ai peidio, ac a ddylid cyhoeddi Rhybudd Statudol ar y cynnig ai peidio.

## 3. Gwybodaeth Gefndirol

### 3.1 Cais am newid

Yn ystod Tymor yr Haf 2021 bu i gorff llywodraethol Ysgol Chwilog ac Aelod Lleol yr ardal ar y pryd gysylltu â’r Adran Addysg yn pryderu am ddiffyg lle yn yr ysgol i gyfarch y cynnydd diweddar mewn niferoedd dysgwyr ynghyd â rhagamcanion o gynnydd pellach yn sgil datblygiadau tai o fewn dalgylch yr ysgol.

### 3.2 Cais am gyllid

Yn sgil ystyried y pryderon, cyflwynodd yr Adran Addysg gais am gyllid o gynllun Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Prif nod Llywodraeth Cymru ar gyfer y grant yw cefnogi buddsoddiadau fyddai'n hwyluso twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg gan anelu'n benodol at brosiectau a fyddai’n cyfrannu'n amlwg at gyflawni nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Ar 21 Chwefror 2022, derbyniwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru eu bod wedi cymeradwyo mewn egwyddor i ariannu 100% o’r cyllid cyfalaf a refeniw tuag at nifer o brosiectau gan gynnwys ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog er mwyn ymateb i'r diffyg gofod.

Mae’r Llywodraeth hefyd wedi cymeradwyo mewn egwyddor grant refeniw tuag at gyflogi athro llawn amser yn yr ysgol am gyfnod o 2 flynedd yn dilyn creu’r dosbarth ychwanegol.

### 3.3 Cabinet Cyngor Gwynedd

Mewn cyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd ar 19 Gorffennaf 2022, bu i'r Cabinet gymeradwyo i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95, sef cynnydd o dros 25% o’r capasiti presennol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Yn yr un cyfarfod cymeradwyodd y Cabinet i symud ymlaen i gyflwyno achos busnes gerbron Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau’r cyllid o’r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg. Bydd defnyddio unrhyw gyllid a gymeradwyir ar gyfer ychwanegu capasiti i Ysgol Chwilog yn ddarostyngedig i ganlyniad y broses statudol.

### 3.4 Proses statudol

Mae’n rhaid cynnal ymgynghoriad statudol oherwydd fod Llywodraeth Cymru yn nodi yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion bod rhaid cynnal proses statudol os yn ‘*ehangu safle ysgol (ac eithrio ysgolion meithrin ac ysgolion arbennig), a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25% neu 200 o ddisgyblion, o gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol. Wrth benderfynu ar gynnydd mewn capasiti, rhaid ystyried pob achos o ehangu ysgol sydd wedi digwydd ers y dyddiad priodol ynghyd â'r gwaith ehangu arfaethedig.’*

Bydd ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog yn cynyddu’r capasiti i 95, sydd yn gynnydd o dros 25% o’r 65 presennol, sef capasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol yn yr achos yma. Golyga hyn y bydd angen cynnal proses statudol cyn gallu gwneud unrhyw addasiadau fydd yn arwain at gynyddu capasiti’r ysgol. Cam cyntaf y broses statudol fydd cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion bod ‘*rhaid rhoi o leiaf 42 o ddiwrnodau i bobl ymateb i'r ddogfen ymgynghori, gyda 20 o’r rhain yn ddiwrnodau ysgol’* felly mi fyddwn yn cynnal yr ymgynghoriad statudol rhwng **19 Hydref a 30 Tachwedd 2022.**

## 4. Y Sefyllfa Bresennol

Capasiti yr ysgol yw 65 (Derbyn – Blwyddyn 6) gyda rhif mynediad meithrin i 9 plentyn disgybl. Yn Medi 2022 roedd 71 o ddisgyblion rhwng 4-11 oed ac 13 o ddysgwyr Meithrin ar y gofrestr ac roedd 4 dosbarth oed cymysg yn yr ysgol. Mae'r tabl isod yn dangos beth yw maint dosbarthiadau presennol Ysgol Chwilog.

**Tabl 1**

| Ysgol | Meithrin | Derbyn | Bl 1 | Bl2 | Bl 3 | Bl 4 | Bl 5 | Bl 6 | Cyfanswm | Nifer y dosbar-thiadau | Dosbarth mwyaf | Dosbarth lleiaf | Maint dosbarth ar gyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Chwilog** | 13 | 16 | 15 | 7 | 10 | 10 | 4 | 9 | **84** | 4 | 31 | 13 | 21 |

**2022-23 Dosbarth Meithrin yn Neuadd Bentref dros dro*
*Ffynhonnell: Data Cyfrifiad Medi 2022*

Fel y gwelir o'r tabl isod, o'r 82 plentyn oed cynradd sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Chwilog yn Medi 2022 roedd 63 yn mynychu Ysgol Chwilog, ac 19 yn mynychu ysgolion eraill. Mae 21 disgybl yn dod o ddalgylchoedd eraill cyfagos hefyd yn mynychu Ysgol Chwilog.

**Tabl 2**

| | | Byw yn Dalgylch: Chwilog | Abererch | Bro Plenydd | Llangybi | Llanyst-umdwy | Arall | Cyfanswm Ysgol *(M-Bl6)* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mynychu Ysgol | Chwilog | 63 | 1 | 6 | 5 | 3 | 6 | **84** |
| | Abererch | 5 | | | | | | |
| | Bro Plenydd | 4 | | | | | | |
| | Llangybi | 4 | | | | | | |
| | Llanystumdwy | - | | | | | | |
| | Arall | 6 | | | | | | |
| **Cyfanswm** | | **82** | | | | | | |

*Ffynhonnell: GIS 3 Hydref 2022*

### 4.1 Dyraniad cyllidol

Cyfanswm dyraniad cyllidol Ysgol Chwilog am y flwyddyn 2022-23 ydi £302,000 gyda chyfartaledd y gost fesul dysgwr yn £4,638. Cyfartaledd y gost fesul dysgwr holl ysgolion cynradd Gwynedd ydi £4,509.

### 4.2 Gwybodaeth am Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae Ysgol Chwilog yn cynnig addysg i ddysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol. Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod. Nid yw'r ysgol yn addas ar gyfer derbyn dysgwyr gydag anghenion ffisegol e.e. cadair olwyn.

### 4.3 Ansawdd a safonau mewn addysg

#### 4.3.1 Arolwg Estyn

Cafodd Ysgol Chwilog eu harolygu ddiwethaf ym Mai 2022. Bu i Estyn newid eu ffordd o arolygu ysgolion yn 2022 a bellach nid ydyw eu hadroddiadau yn cynnwys graddau crynodol e.e. 'Rhagorol', 'Da', 'Digonol' ac anfoddhaol. Bellach, mae eu hadroddiadau yn canolbwyntio ac yn manylu ar ba mor dda mae darparwyr yn helpu plentyn i ddysgu. Golyga hyn nad yw bellach yn bosibl dangos asesiad o effaith tebygol y cynnig ar bum maes arolygu perthnasol Estyn fel sydd yn cael ei nodi yn 'Ansawdd a safonau mewn addysg' yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

Dyma grynodeb o'r hyn nodwyd yn adroddiad Estyn yn dilyn eu harolygiad o Ysgol Chwilog:

*"Mae Ysgol Gynradd Chwilog yn ysgol hapus a chartrefol. Mae'r holl staff yn cydweithio'n llwyddiannus wrth greu ethos teuluol, cyfeillgar a Chymreig. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn mwynhau mynychu'r ysgol yn fawr iawn. Mae'r modd y mae'r staff yn hyrwyddo diwylliant, iaith a threftadaeth Cymru yn gryfder sylweddol ar draws yr ysgol. Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn ardderchog. Maent yn ysgwyddo cyfrifoldeb am eu hymddygiad ac yn ymwybodol o ddisgwyliadau uchel oedolion. Maent yn ofalgar o'u cyfoedion, yn barchus tuag at oedolion, ac yn gwrtais i ymwelwyr, boed hynny mewn gwersi neu yn ystod amser egwyl. Mae disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hynod effeithiol gan sgwrsio'n gwbl naturiol mewn ystod ddiddorol o gyd-destunau dysgu. Maent yn sgwrsio'n fyrlymus a naturiol gyda'i gilydd, staff ac ymwelwyr ac yn dangos balchder cynhenid wrth siarad Cymraeg. Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gryfder yn yr ysgol, ac o ganlyniad, maent yn datblygu i fod yn ddysgwyr creadigol sy'n cyfleu eu hunain yn gynyddol hyderus."*

Gellir gweld yr adroddiad llawn drwy ddilyn y linc isod:
[Adroddiad arolygiad Y.G. Chwilog 2022 (llyw.cymru)]

### 4.4 Cryfderau a Gwendidau'r Sefyllfa Bresennol

Fel y gwelir o adroddiad Estyn a'r tabl isod mae nifer o gryfderau gan Ysgol Chwilog gan gynnwys canmoliaeth o'r defnydd a wneir o'r Gymraeg gan y dysgwyr.

Mae adroddiad Estyn hefyd yn cyfeirio at elfennau i'w gwella gan gynnwys y defnydd o TGCh ar draws gweithgareddau'r ysgol.


Prif wendid, a'r hyn y mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio ymateb iddo, yw'r diffyg gofod ar gyfer y galw yn y dalgylch o ganlyniad i'r cynnydd yn niferoedd plant y dalgylch.

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| Yn ôl Estyn, un o rinweddau cryfaf yr ysgol yw bod bron bob disgybl yn datblygu eu medrau llafar Cymraeg yn hynod effeithiol gan sgwrsio'n gwbl huawdl mewn ystod ddiddorol o gyd-destunau dysgu. Maent yn sgwrsio'n fyrlymus a naturiol gyda'i gilydd, staff ac ymwelwyr ac yn dangos balchder cynhenid wrth siarad Cymraeg. | Does dim digon o ddosbarthiadau yn yr ysgol i ymdopi â'r angen i'r dyfodol. Mae'r ysgol gyda chapasiti ar gyfer 65 o ddisgyblion ac mae rhagolygon yn awgrymu y bydd 93 o blant oed derbyn – blwyddyn 6 angen lle erbyn 2026 |
| Yn ôl Estyn, mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o'i hun, y staff a'r disgyblion ac, o ganlyniad, mae ethos gofalgar, gweithgar a | Yn ôl Estyn, mae medrau TGCh disgyblion yn datblygu'n addas. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn defnyddio eu medrau |

| | |
|---|---|
| Chymreig yn treiddio trwy holl weithgareddau'r ysgol. | TGCh yn ddigon rheolaidd ar draws ystod o weithgareddau dysgu |
| Yn ôl Estyn, mae'r corff llywodraethol yn ymroddgar a chefnogol i'r ysgol ac maent wedi canolbwyntio'n llwyddiannus ar ddatrys nifer o faterion pwysig. Maent wedi sicrhau bod gan yr ysgol arweinyddiaeth sefydlog a thîm o staff ymroddedig. Trwy gydweithio ag arweinwyr, a thrafod enghreifftiau o waith gyda'r disgyblion, mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. | Mae adroddiad Estyn yn argymell yr angen i ddatblygu rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol |

## 4.5 Ardal Chwilog

Mae dalgylch Ysgol Chwilog yn ffinio gyda dalgylch 4 ysgol gynradd eraill, sef Ysgol Abererch, Ysgol Bro Plenydd, Ysgol Llangybi, ac Ysgol Llanystumdwy.




Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi bod angen cynnwys manylion ysgolion fydd o bosib yn cael eu heffeithio gan y cynnig yn y ddogfen ymgynghori. Er na fydd unrhyw un o'r ysgolion hyn yn cael eu heffeithio yn uniongyrchol gan y cynnig gan mai cynyddu capasiti Ysgol Chwilog ydi unig nod yr ymgynghoriad, mae ofynnol inni eu cynnwys yn y broses.

Mae'r tabl isod yn cynnwys ystadegau am yr ysgolion gyfagos:

**Tabl 3**

| | | Ysgol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Chwilog** | **Abererch** | **Bro Plenydd** | **Llangybi** | **Llanystumdwy** |
| **Lleoliad yr Ysgol** | | LL53 6PS | LL53 6YU | Y Ffor<br>LL53 6UP | LL53 6DQ | LL52 0SP |
| **Ystod Oedran** | | 3-11 | 3-11 | 3 - 11 | 3 - 11 | 3 - 11 |
| **Categori'r Ysgol**<br>**(Cymunedol [CS], Gwirfoddol dan Gymorth [CWN]; Gwirfoddol dan Reolaeth [CWR])** | | CS | CS | CS | CS | CWR(E) |
| **Categori Cyfrwng Iaith** | | Cymraeg | Cymraeg | Cymraeg | Cymraeg | Cymraeg |
| **Nifer o ddisgyblion ar y gofrestr – Medi 2022** | Meithrin | 13 | 10 | 9 | 4 | 3 |
| | Derbyn – Bl.6 | 71 | 61 | 76 | 25 | 23 |
| | Cyfanswm | 84 | 71 | 85 | 29 | 26 |
| **Nifer o ddisgyblion ar y gofrestr am y pum blynedd flaenorol M-Bl.6** | Medi 2021 | 76 | 70 | 86 | 33 | 22 |
| | Medi 2020 | 63 | 72 | 78 | 35 | 21 |
| | Medi 2019 | 52 | 83 | 74 | 34 | 21 |
| | Medi 2018 | 52 | 81 | 77 | 38 | 21 |
| **Capasiti** | Meithrin | 9 | 9 | 13 | 10 | 6 |
| | Derbyn – Bl.6 | 65 | 67 | 91 | 70 | 47 |
| | Cyfanswm | 74 | 76 | 104 | 80 | 53 |
| **Llefydd Gweigion D-Bl.6 Medi 2022** | | -6 | 6 | 15 | 45 | 24 |
| **Rhagamcanion Disgyblion M-Bl.6** | Medi 2023 | 88 | 67 | 85 | 29 | 25 |
| | Medi 2024 | 98 | 72 | 83 | 28 | 25 |
| | Medi 2025 | 103 | 67 | 79 | 28 | 25 |
| | Medi 2026 | 105 | 72 | 77 | 28 | 27 |
| | Medi 2027 | 109 | 73 | 79 | 28 | 27 |
| **Data perfformiad Ysgolion (Estyn)**<br>*Nid yw adroddiadau Estyn yn cynnwys graddau crynodol mwyach (2022 ymlaen) | | 2022* | 5 x Da<br>(2018) | 3 x Da<br>(2015) | 5 x Da<br>(2018) | 5 x Da<br>(2018) |
| **Categori Cyflwr Adeiladau (Criteria'r Cyngor) 2021** | | B | A | B | B | B |
| **Dyraniad Cyllidol 2022 -23** | | £302,000 | £316,000 | £369,000 | £199,000 | £189,000 |
| **Cost y disgybl 2022-23** | | £4,638 | £4,863 | £4,716 | £6,579 | £9,836 |

## 5. Achos dros newid

### 5.1 Datblygiadau tai newydd

Yn ystod y blynyddoedd ddiwethaf, mae Chwilog wedi gweld dyfodiad stad o dai newydd marchnad agored yn y pentref sydd bellach wedi cartrefu nifer o deuluoedd ifanc Cymraeg eu hiaith, ac mae caniatâd cynllunio wedi ei ganiatáu ar gyfer dwy stâd arall o dai yn y pentref, all arwain at gyfanswm o hyd at 39 o dai ychwanegol yn Chwilog dros y blynyddoedd nesaf. Ar sail fformiwla rhagamcanu plant mewn tai newydd rhagwelir y bydd 39 tŷ yn golygu cynnydd posib o oddeutu 16 o blant oed cynradd.

### 5.2 Cynnydd yn niferoedd disgyblion

Mae niferoedd dysgwyr Ysgol Chwilog wedi bod yn cynyddu ers nifer o flynyddoedd, a mae'r ysgol wedi cyrraedd ei chapasiti llawn o 65 o ddysgwyr ym Medi 2022 gyda 71 o ddysgwyr (derbyn – blwyddyn 6) ac 13 meithrin.

Fel y gwelir o'r tabl isod mae cynnydd nodedig wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Chwilog yn ddiweddar ac mae rhagolygon o gynnydd pellach o ganlyniad i ddatblygiadau tai o fewn dalgylch yr ysgol.

**Tabl 4**

| Ysgol | Capasiti D-Bl6 (M) | 2000 | 2005 | 2010 | 2015 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Chwilog** | 65 (9) | 46 (3) | 39 (11) | 47 (4) | 44 99) | 41 (11) | 47 (5) | 50 (13) | 71 (13) | 71 (13) | 75 (13) | 84 (14) | 88 (15) | 91 (14) | 95 (14) |

Mae'r cynnydd tebygol yn niferoedd dysgwyr yn golygu y bydd hi'n anodd, os nad yn amhosibl i'r ysgol ymdopi gyda'r niferoedd heb greu dosbarth ychwanegol brys ar eu cyfer. Yn wir, mae'r ysgol yn barod yn gorfod gweithredu camau dros dro yn sgil y prinder gofod drwy ddefnyddio y neuadd bentref ar gyfer dysgu rhai dysgwyr.

## 6. Gwerthusiad Opsiynau

Yn ystod cyfarfodydd mewnol, bu i aelodau'r Bwrdd Prosiect gynnig a thrafod y modelau posibl isod ar gyfer ymateb i'r problemau sy'n wynebu Ysgol Chwilog:

| | |
|---|---|
| **Opsiwn 1** | Gwneud Dim. Parhau gyda'r sefyllfa bresennol. |
| **Opsiwn 2** | Creu capasiti ar gyfer cynnydd yn nisgyblion cynradd dalgylch Chwilog drwy leoli dosbarth newydd ar safle Ysgol Chwilog |
| **Opsiwn 3** | Creu capasiti ar gyfer cynnydd yn nisgyblion cynradd dalgylch Chwilog drwy leoli dosbarth newydd ar safle ysgol arall gyfagos |

### 6.1 Cymharu Opsiynau

Wrth ystyried sut i ymateb i heriau Ysgol Chwilog i'r dyfodol bu inni ystyried y 3 opsiwn gwahanol a'u mesur yn erbyn 8 ffactor. Gellir gweld yr asesiad opsiynau yn y tabl isod.

| | 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|
| | Gwneud Dim. Parhau gyda'r sefyllfa bresennol. | Creu capasiti ar gyfer cynnydd yn nisgyblion cynradd dalgylch Chwilog drwy leoli dosbarth newydd ar safle Ysgol Chwilog | Creu capasiti ar gyfer cynnydd yn nisgyblion cynradd dalgylch Chwilog drwy leoli dosbarth newydd ar safle ysgol arall cyfagos |
| **Sicrhau digon o le ar gyfer rhagamcanion niferoedd yn y dalgylch i'r dyfodol** | Bydd capasiti'r ysgol yn parhau i fod yn 65 er gwaethaf rhagamcanion dysgwyr sylweddol uwch e.e 95 (derbyn – blwyddyn 6) yn 2027. Felly ni fyddai'r opsiwn yma yn cynnig digon o le ar gyfer rhagamcanion niferoedd i'r dyfodol. | Byddai lleoli dosbarth ychwanegol yn golygu y byddai capasiti'r ysgol yn cynyddu i 95 ac felly yn ddigonol ar gyfer rhagamcanion disgyblion I'r dyfodol e.e. 95 (derbyn – blwyddyn 6) yn 2027. Felly byddai'r opsiwn yma yn cynnig digon o le ar gyfer rhagamcanion niferoedd i'r dyfodol. | Bydda lleoli dosbarth ychwanegol ar safle ysgol arall yn cynnig lle ddigonol ar gyfer rhagamcanion disgyblion I'r dyfodol e.e. 95 (derbyn – blwyddyn 6) yn 2027. Felly mi fyddai'r opsiwn yma yn cynnig digon o le ar gyfer rhagamcanion niferoedd i'r dyfodol |
| **Cyllideb cyfalaf** | Gan nad oes unrhyw wariant ynghlwm â'r opsiwn yma nid yw hyn yn berthnasol ond byddai angen rhoi ystyriaeth i unrhyw bwysau ar ysgolion eraill i'r dyfodol yn sgil gorfod derbyn plant o ddalgylch Ysgol Chwilog. | Rhagwelir y byddai'r gyllideb yn ddigonol ar gyfer yr holl gostau ynghlwm â lleoli'r dosbarth ychwanegol ar safle'r ysgol. | Rhagwelir bydd y gyllideb yn ddigonol ar gyfer yr holl gostau ynghlwm â lleoli'r dosbarth ychwanegol ar safle ysgol arall gyfagos. |
| **Sicrhau lle digonol erbyn Medi 2023** | Bydd yn rhaid gwrthod rhai plant o ddalgylch Chwilog os nad oes capasiti digonol yn yr ysgol gan wneud trefniadau iddynt fynychu ysgol arall cyfagos. | Mae'n bosib cyflawni'r gwaith yma erbyn 1 Medi 2023. | Mae 'n bosib cyflawni'r gwaith yma erbyn 1 Medi 2023. |
| **Sicrhau digon o staff ar gyfer unrhyw ddisgyblion ychwanegol** | Bydd angen i unrhyw ysgol arall gyfagos ystyried plant o ddalgylch Chwilog sydd angen lle wrth gynllunio eu strwythur staffio. | Mae'r grant yn cynnwys arian refeniw ar gyfer cyflogi athro am 2 flynedd. Bydd hyn yn caniatáu amser i'r niferoedd yn yr ysgol gynyddu yn sgil datblygiadau tai ac i'r ysgol flaengynllunio strwythur staffio priodol mewn ymateb i'r cynnydd. | Mae'r grant yn cynnwys arian refeniw ar gyfer cyflogi athro am 2 flynedd. Bydd hyn yn caniatáu amser i'r niferoedd yn Ysgol Chwilog gynyddu yn sgil datblygiadau tai ac i'r ysgol flaengynllunio strwythur staffio priodol mewn ymateb i'r cynnydd. |
| **Ffactorau daearyddol** | Bydd rhaid trefnu cludiant i blant o ddalgylch Chwilog fynychu ysgol all-dalgylch pan fydd Ysgol Chwilog yn llawn, a hynny ar gost sylweddol i'r Cyngor. | Yn unol â polisi cludiant yr Adran Addysg, disgwylir i ddysgwyr o'r dalgylch sy'n byw o fewn 2 filltir i'r ysgol, wneud eu ffordd eu hunain i'r ysgol. | Bydd rhaid trefnu cludiant i blant o ddalgylch Chwilog fynychu y dosbarth ar safle ysgol gyfagos, ar gost sylweddol i'r Cyngor. |
| **Effaith ar yr iaith Gymraeg** | Effaith ar cymuned Chwilog | Dim effaith | Dim effaith |
| **Effaith Cymunedol** | Dim lle i holl blant y dalgylch. Bydd plant dalgylch Chwilog yn | Holl blant y dalgylch yn gallu cael eu haddysgu o fewn eu | Plant yn gorfod mynd i safle ysgol arall am peth o'u |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gorfod mynychu ysgol arall gyfagos am eu addysg, gan rannu'r gymuned ynghyd ag effeithio ar hyfywedd a bywiogrwydd y Gymraeg yn Chwilog. | cymuned, gan gyfrannu at hyfywedd a bywiogrwydd y Gymraeg yn y gymuned | haddysg yn y dosbarth newydd. |
| **Effaith ar ansawdd a safonau addysg** | Rhagwelir bydda yr opsiwn yma yn golygu gorfod parhau i addysgu disgyblion mewn 3 dosbarth o gwahanol meintiau ac ystod oedran. | Rhagwelir bydd cynyddu capasiti Ysgol Chwilog drwy ychwanegu dosbarth ar safle yn cael effaith gadarnhaol gan y bydd yn sicrhau bod digon o le ar gyfer addysgu holl blant y dalgylch mewn 4 dosbarth o faint mwy addas i'r dyfodol. Bydd hyn hefyd, o bosib, yn cynnig yr opsiwn i addysgu plant o fewn dosbarthiadau o ystod oedran priodol. | Rhagwelir bydd lleoli dosbarth ychwanegol ar safle ysgol arall gyfagos mewn ymateb i ddiffyg capasiti Ysgol Chwilog yn creu ansefydlogrwydd ac anghysondeb yn y ddarpariaeth addysg a'r profiadau addysgol i blant Chwilog drwy i rai plant orfod derbyn eu haddysg ar safle ysgol arall. |

O ganlyniad i'r asesiad opsiynau, cytunwyd mai'r opsiwn ffafredig yw i gynyddu capasiti yr ysgol o 65 i 95 o ddysgwyr drwy greu dosbarth ychwanegol ar safle Ysgol Chwilog. Gellir gweld rhesymeg am y penderfyniad yn y tabl isod:

| Opsiwn | Penderfyniad | Rhesymau |
|---|---|---|
| Gwneud Dim. Parhau gyda'r sefyllfa bresennol | Diystyru. | Bydd yn amhosib i'r ysgol ymdopi gyda'r cynnydd yn y galw am lefydd os bydd rhagamcanion cynnydd yn mhoblogaeth plant Chwilog yn cael ei wireddu. Bydd rhaid i nifer o'r plant fynychu ysgolion eraill pan fydd Ysgol Chwilog wedi cyrraedd ei chapasiti. Bydd hyn yn golygu gorfod gadael eu cymuned i gael eu haddysg a chost cludiant sylweddol i gyflawni hynny. |
| Creu capasiti ar gyfer cynnydd yn nisgyblion cynradd dalgylch Chwilog drwy leoli dosbarth newydd ar safle Ysgol Chwilog i fod yn weithredol 1 Medi 2023. | Opsiwn ffafredig | Bydd yr opsiwn yma'n golygu y bydd holl blant dalgylch Chwilog yn gallu cael eu haddysg o fewn eu cymuned. Bydd y dosbarth ychwanegol yn cynnig cyfle i addysgu disgyblion mewn dosbarthiadau o'r maint cywir ac o bosib yn cynnig yr opsiwn i addysgu plant o fewn dosbarthiadau o ystod oedran priodol. Bydd yr opsiwn yma hefyd yn cyfrannu at hyfywedd a bywiogrwydd y Gymraeg yn y gymuned. |
| Creu capasiti ar gyfer cynnydd yn nisgyblion cynradd dalgylch Chwilog drwy leoli dosbarth newydd ar safle ysgol arall cyfagos. | Diystyru. | Rhagwelir bydd lleoli dosbarth ychwanegol ar safle ysgol arall, mewn ymateb i niferoedd uwch o blant yn nalgylch Chwilog, yn creu ansefydlogrwydd ac anghysondeb yn y ddarpariaeth addysg a'r profiadau addysgol i blant Chwilog gan fydd plant yn gorfod derbyn peth o'u haddysg ar safle ysgol arall. Bydd hefyd angen cludo'r plant o Chwilog i'r ysgol amgen ar gost sylweddol i'r Cyngor. |

## 7. Y Cynnig

### 7.1 Crynodeb o’r Cynnig

Yn dilyn cynnal gwerthusiad o’r opsiynau, y cyfeiriad a ffafrir, a'r cynnig sy’n destun i'r ymgynghoriad statudol hwn, yw cynyddu capasiti yr ysgol o 65 i 95 o ddysgwyr drwy ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog i fod yn weithredol 1 Medi 2023.

Oherwydd ein bod angen creu’r dosbarth ychwanegol yma erbyn 1 Medi 2023 mae’n fwriad i wneud hyn drwy ddefnyddio Unedau MMC (Modern Methods of Construction). Mae’r rhain yn barod wedi eu defnyddio mewn ysgolion eraill yn y sir ac yn profi i fod yn ddosbarthiadau effeithiol a phoblogaidd.

Mae llawer o fanteision i ddefnyddio’r Unedau MMC gan gynnwys:

- Mwy o gysondeb yn y defnyddiau sydd yn cael eu defnyddio
- Haws defnyddio deunyddiau ysgafnach sydd yn arbed ynni
- Yr adeiladau yn medru cael eu hadeiladu i unrhyw faint a siâp.
- Adeiladau yn llawer haws i’w cynhesu, gyda llai o ynni, nag adeiladau traddodiadol.
- Mae’r adeiladau yn cydymffurfio, neu yn well, na gofynion ynni y Rheoliadau Adeiladu.
- Strwythur modiwlar yr adeiladau yn golygu fod mwy o hyblygrwydd wrth ddylunio’r gofod mewnol.
- Cyfnod adeiladu ar y safle yn llawer byrrach nag adeilad o wneuthuriad traddodiadol

Gweler isod luniau o ddosbarthiadau unedau MMC sydd wedi eu lleoli ar safleoedd ysgolion eraill yn ddiweddar er mwyn rhoi syniad ichi o sut gall  y dosbarth yn Ysgol Chwilog edrych:







Mae'r tabl isod yn cynnwys manylion Ysgol Chwilog os bydd y cynnig yn cael ei weithredu.

**Tabl 5**

| | | |
|---|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Chwilog | |
| **Ystod oedran** | 3-11 oed | |
| **Categori'r ysgol** | Cymunedol | |
| **Categori Iaith** | 3 | |
| **Dyddiad gweithredu** | 1 Medi 2023 | |
| **Niferoedd a ragwelir – Medi 2023** | *Meithrin*<br>13 | *Derbyn – Bl.6*<br>75 |
| **Capasiti (yn seiliedig ar Gylchlythyr Llywodraethwyr Cynulliad Cymru 21/2011 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru)** | *Meithrin*<br>13 | *Derbyn – Bl.6*<br>95 |
| **Ansawdd yr adeilad a'r ystafelloedd dosbarth (Categori Cyflwr Adeilad)** | B | |

## 7.2 Ansawdd yr Addysg

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu addysg o'r ansawdd gorau posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.

Un o'r blaenoriaethau yw darparu'r profiadau dysgu gorau bosibl ar gyfer pob dysgwr o fewn y Sir, gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall, a fydd yn arwain at wella safonau.

Rhagwelir y bydd gweithredu'r cynnig o gynyddu capasiti'r ysgol drwy greu dosbarth ychwanegol yn helpu'r ysgol i gyflawni hyn gan y bydd yn:

a) cynnig gwell amgylchedd dysgu i staff addysgu a dysgwyr yr ysgol
b) bydd dysgwyr yr ysgol yn derbyn gwell profiadau addysgol a chyfleoedd
c) bydd dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau gyda niferoedd mwy addas

## 7.3 Capasiti ysgol, maint dosbarthiadau ac ystod oedran

Drwy ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog byddwn yn sicrhau digon o le ar gyfer holl blant y dalgylch yn y blynyddoedd i ddod. Bydd ychwanegu dosbarth yn golygu capasiti ar gyfer 95 dysgwr blwyddyn derbyn i blwyddyn 6 gyda 13 lle meithrin. Mae'r rhagamcanion ar gyfer y 5 mlynedd nesaf i'w weld yn y tabl isod.

**Tabl 6**

| **Ysgol** | **Capasiti 2023** D-Bl6 (M) | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** | **2026** | **2027** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Chwilog** | 95 (13) | 71 (13) | 75 (13) | 84 (14) | 88 (15) | 91 (14) | 95 (14) |

Ein disgwyliad yw fod dosbarthiadau o faint priodol mewn ysgolion cynradd, cyn belled ag y bo modd, fel bod plant y Sir yn derbyn y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl.

Yn mis Medi 2022, roedd dysgwyr Ysgol Chwilog yn cael eu haddysgu mewn 4 dosbarth. Mae'r dosbarth mwyaf gyda 31 o ddysgwyr ynddo, a'r dosbarth lleiaf yn addysgu'r blwyddyn Meithrin yn unig. Cyfartaledd maint dosbarthiadau'r ysgol yw 21.

Byddai gwireddu'r cynnig arfaethedig yn golygu bod Ysgol Chwilog yn cael dosbarth ychwanegol i addysgu'r dysgwyr gan roi'r cyfle i gael dosbarthiadau mwy cytbwys sydd yn cynnig yr amgylchedd dysgu gorau i'r dysgwyr.

## 7.4 Dyraniad cyllidol

A'r sail rhagamcanion dysgwyr yn 5.2 (tabl 4), mae'r tabl isod yn dangos amcan o beth fydd dyraniad cyllidol yr ysgol am y 5 mlynedd nesaf os bydd niferoedd yr ysgol yn cynyddu yn unol â'r rhagamcanion hynny.

**Tabl 7**

| Blwyddyn | Dyraniad Cyllidol yr ysgol | Dyraniad Cyllidol fesul disgybl |
|---|---|---|
| 2023-24 | £339,752 | £4,428 |
| 2024-25 | £352,572 | £4,368 |
| 2025-26 | £383,223 | £4,250 |
| 2026-27 | £397,608 | £4,203 |
| 2027-28 | £412,503 | £4,160 |

Bydd hyn yn golygu y bydd cost fesul dysgwr yn cymharu'n ffafriol yn erbyn cyfartaledd cost fesul dysgwr holl ysgolion cynradd Gwynedd sydd ar hyn o bryd yn £4,509.

## 7.5. Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd arweinyddiaeth dda mewn ysgol fel ffordd o gynnal a gwella safonau. Mae'r camau canlynol ar waith er mwyn sicrhau arweinyddiaeth gref yn ysgolion Gwynedd ar gyfer y dyfodol:

- GwE yn hyfforddi un uwch-reolwr o bob ysgol uwchradd i ddatblygu eu sgiliau arwain personol, a hefyd i ddatblygu rheolwyr canol eu hysgolion;
- Ysgolion llwyddiannus yn rhannu arfer dda a chynnal dyddiadau Datblygu Arweinyddiaeth i reolwyr gweddill yr ysgolion;
- Cynlluniau ysgol i ysgol yn sicrhau bod arweinwyr ysgolion yn cydweithio ac yn datblygu arbenigedd arweinydd;
- Annog darpar arweinwyr i ennill y cymhwyster CPCP;
- Cynllun mentora Penaethiaid newydd.

Ein gobaith yw y bydd penaethiaid yn cael digon o gyfleoedd i ddarparu arweinyddiaeth a rheolaeth broffesiynol ar gyfer eu hysgolion. Hefyd rydym yn disgwyl i gyrff llywodraethol arwain ysgolion yn effeithlon o fewn y gyllideb sydd ar gael iddynt a hynny er budd y dysgwyr. Byddwn yn disgwyl i ysgolion fod yn meddu ar y staff gorau ar gyfer darparu addysg o'r ansawdd gorau i blant Gwynedd.

Yn adroddiad Estyn diweddar yn sgil arolygu Ysgol Chwilog, nodwyd:

"Mae medrau arwain staff yn datblygu'n gadarn sydd yn cyfrannu'n llwyddiannus at greu trefniadau arweinyddiaeth cryf i'r ysgol."

Yn ogystal, nodwyd fod y Corff Llywodraethu yn "ymroddgar a chefnogol i'r ysgol ac maent wedi canolbwyntio'n llwyddiannus ar ddatrys nifer o faterion pwysig. Maent wedi sicrhau bod gan yr ysgol arweinyddiaeth sefydlog a thîm o staff ymroddedig."

Ar hyd o bryd, mae strwythur staffio Ysgol Chwilog yn cynnwys pennaeth sydd yn rhannu ei amser gydag Ysgol Garndolbenmaen, dwy athrawes rhan amser, 2 athrawes llawn amser a 6 cymhorthydd. Mae gan y pennaeth ymrwymiad dysgu 0% sydd yn dilyn egwyddorion addysg Gwynedd sydd yn nodi oddeutu 80% o amser digyswllt i'r Pennaeth ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn y cynradd.

Os ychwanegir dosbarth i Ysgol Chwilog, drwy ddefnyddio Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru bydd yn bosib cyflogi athro ychwanegol i ddysgu yn y gofod newydd am 2 flynedd drwy elfen refeniw y grant. Bydd hyn yn caniatáu amser i'r niferoedd yn yr ysgol gynyddu yn sgil datblygiadau tai ac i'r ysgol flaengynllunio strwythur staffio priodol mewn ymateb i'r cynnydd.

## 7.6 Amgylchedd Ddysgu

### 7.6.1 Cyflwr

Yn unol â Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau I Blant Gwynedd, nod Y Cyngor yw darparu adeiladau addysg gynradd o ansawdd yn y sir trwy gynllunio strwythuredig, gan ddarparu ystafelloedd priodol i benaethiaid ysgol ac athrawon ynghyd â mynediad i gaeau chwarae a neuadd briodol i blant. Bydd angen i adeiladau gydymffurfio â gofynion y cyfnod sylfaen a'r cwricwlwm yn ogystal.

Mae'r Cyngor yn cynnal arolygon cyflwr blynyddol ar ei holl eiddo. Mae'r arolygon blynyddol yn cyfrannu at Gynllun Rheoli Asedau'r Awdurdod ac yn galluogi blaenoriaethu'r rhaglen waith cynnal a chadw ysgolion.

Mae'r tabl isod yn cynnwys cyflwr adeilad Ysgol Chwilog, yn ogystal â chostau'r gwaith cynnal a chadw sydd ei angen.

**Tabl 9**

| Ysgol | Categori Cyflwr | Diffygion Cyflwr | Cost y Cynnal a Chadw sydd ei Angen | Amserlen cwblhau y diffygion |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Chwilog** | B | • Peintio allanol | £5,000 | 2 flynedd |
| **Allwedd i'r categorï cyflwr:** | | | | |
| **A** DA (Dim Dirywiad) | | | **C** GWAEL (Dirywiad Mawr) | |
| **B** BODDHAOL (Mân Ddirywiad) | | | **D** DRWG (Wedi cyrraedd diwedd ei hoes) | |

*Ffynhonnell: Adran Eiddo Gwynedd 2022*

Mae adeilad Ysgol Chwilog wedi ei adnabod yng nghategori cyflwr B (Boddhaol). Yr unig ddiffyg sydd wedi ei adnabod yw gwaith paentio allanol. Cafodd gwaith ei gyflawni ar yr ysgol yn 2021 felly mae'r adeilad mewn cyflwr derbyniol ar hyn o bryd.

### 7.6.2 Addasrwydd

Mae'n fwriad i gynnal asesiad addasrwydd yr ysgol ar gyfer ymateb I'r cynnydd yn niferoedd disgyblion i'r dyfodol er mwyn adnabod unrhyw addasiadau sydd angen ei wneud i sicrhau amgylchedd addas a digonol ar gyfer anghenion yr ysgol.

## 7.7 Asesiadau Effaith y cynnig

Cynhaliwyd nifer o asesiadau effaith ar yr opsiwn ffafredig, sef cynyddu capasiti yr ysgol o 65 i 95 o ddysgwyr drwy ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog i fod yn weithredol 1 Medi 2023 , yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

### 7.7.1 Asesiad cydraddoldeb

Cwblhawyd asesiad cydraddoldeb ar gynyddu capasiti Ysgol Chwilog. Gweler yr asesiad llawn a'r y wefan. Deuir i'r casgliad na fyddai cynyddu capasiti'r ysgol yn effeithio ar gydraddoldeb, boed yn nodweddion neu ddyletswydd gyffredinol.

### 7.7.2 Asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg

Ein disgwyliad yw bod ysgolion cynradd y sir yn cefnogi ac yn gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith gymdeithasol ac iaith addysg eu disgyblion.

Yn unol a Polisi Iaith Addysg Gwynedd mae pob un o ysgolion Gwynedd yn cyfrannu'n uniongyrchol at greu siaradwyr Cymraeg o'r newydd, ynghyd â meithrin hyder a sgiliau siaradwyr Cymraeg naturiol gan arwain at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Bydd gallu ymateb yn gadarnhaol i dwf yn y boblogaeth mewn cymunedau dros 70% o siaradwyr Cymraeg yn sgil datblygiadau tai yn gyfrwng i atgyfnerthu a chryfhau ymhellach defnydd naturiol o'r Gymraeg gan blant yn yr ysgol, ynghyd â bod yn gyfle i atgyfnerthu a chryfhau'r elfennau hynny a ystyrir yn hanfodol i adfywio iaith, sef; gallu ieithyddol, y defnydd cymdeithasol a wneir o'r Iaith, y cymhelliant i ddysgu'r iaith, ynghyd â'i defnyddio. Mae pob un o ysgolion Gwynedd drwy gyfrwng y Polisi Iaith a'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn canolbwyntio ar gyflawni'r elfennau hanfodol yma ymysg plant a phobl ifanc, gan gyfrannu at gyflawni nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Wrth ddatblygu unrhyw gynigion ad-drefnu ysgolion, rydym yn rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae cynnal a gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith gymdeithasol ac iaith addysg bob amser yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion ac wrth asesu dewisiadau.

#### Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32

Mae Ysgol Chwilog yn gweithredu amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn sicrhau:

- fod pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg, a sicrhau fod pob plentyn yn cael asesiad sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.
- Yn y cyfnod sylfaen, adeiladir ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael dysgwyr ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd y mwyafrif o'r ysgolion yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg fel pwnc yn y tymor olaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen gan roi sylw i ddatblygu sgiliau darllen, siarad ac ysgrifennu yn yr iaith honno. Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.
- Yng Nghyfnod Allweddol 2, rydym yn parhau i ddatblygu gafael dysgwyr ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

Byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn cyd-fynd gydag amcanion a thargedau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.

Cwblhawyd asesiad effaith y byddai'r cynnig sydd o dan ystyriaeth yn ei gael ar yr Iaith Gymraeg. Gweler yr asesiad llawn a'r y wefan. Deuir i'r casgliad na fyddai cynyddu capasiti'r ysgol yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg yn y dalgylch. Yn wir, rhagwelir y byddai creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn eu hysgol leol yn creu'r amodau gorau fyddai'n cefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y plant a'r gymuned dan sylw.

### 7.7.3 Asesiad effaith economaidd-gymdeithasol

Cwblhawyd asesiad effaith y byddai cynyddu capasiti Ysgol Chwilog yn ei gael ar elfennau economaidd-gymdeithasol. Gweler yr asesiad llawn a'r y wefan. Deuir i'r casgliad na fyddai cynyddu capasiti'r ysgol yn cael effaith economaidd-gymdeithasol negyddol ar yr ardal. Rhagwelir y byddai creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn Ysgol Chwilog yn creu seilwaith gadarn ar gyfer y gymunedau gan greu'r amodau gorau ar gyfer ffyniant y gymuned dan sylw.

### 7.7.4 Asesiad Llesiant

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant ymysg dysgwyr ysgolion y sir drwy ei weithgareddau a phrosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r dyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella llesiant yn 'Cynllun Gwynedd 2018-23'.

Cwblhawyd asesiad llesiant ar gynyddu capasiti Ysgol Chwilog. Gweler yr asesiad llawn a'r y wefan. Yn dilyn rhoi ystyriaeth i 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor deuir i'r casgliad bod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion.

Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant y dalgylch yn cael eu haddysgu mewn ysgol addas o ran maint ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

Byddai addasu'r ysgol er mwyn sicrhau digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn golygu y byddai'r dysgwyr yn gallu cael mynediad at addysg yn eu cymuned.

Rhagwelir y bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn eu hysgol leol yn creu'r amodau gorau i gefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y plant a'u cymuned.

### 7.7.5 Asesiad effaith ar y gymuned

Cwblhawyd asesiad effaith ar y gymuned o ganlyniad i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog. Gweler yr asesiad llawn a'r y wefan. Yn dilyn ystyried effaith y cynnig ar y gymuned ni ragwelir y bydd cynyddu capasiti'r ysgol drwy ychwanegu dosbarth yn cael unrhyw effaith negyddol ar y gymuned.

I'r gwrthwyneb, credir y byddai cynyddu'r capasiti'r ysgol yn sicrhau digon o lefydd ar gyfer holl blant y dalgylch ac felly sicrhau darpariaeth addysg iddynt o fewn eu cymuned. Rhagwelir y bydd cynyddu capasiti'r ysgol yn creu seilwaith gadarn ar gyfer y gymuned a chreu'r amodau gorau i'r iaith Gymraeg a ffyniant y gymuned.

### 7.7.6 Asesiad ar ansawdd a safonau addysg

Cwblhawyd asesiad effaith ar ansawdd a safonau addysg o ganlyniad i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog. Gweler yr asesiad llawn a'r y wefan. Yn dilyn cynnal yr asesiad, rydym o'r farn y byddai cynyddu capasiti'r ysgol drwy ychwanegu dosbarth yn debygol o gael effaith gadarnhaol gan y bydd yn sicrhau bod digon o le ar gyfer addysgu plant mewn dosbarthiadau addas ac o'r maint cywir i'r dyfodol.

### 7.7.7 Asesiad effaith ar drefniadau teithio

Cynhaliwyd asesiad effaith cynyddu capasiti Ysgol Chwilog ar drefniadau teithio. Gweler yr asesiad llawn a'r y wefan.

Gan ein bod yn edrych ar gynyddu capasiti'r ysgol er mwyn ymateb i ragamcanion cynnydd o fewn ei dalgylch, ac yn rhagweld y bydd cartrefi mwyafrif y plant o fewn dwy filltir i'r ysgol, gan ystyried y niferoedd presennol sy'n derbyn cludiant am ddim, ni ragwelir y bydd unrhyw effaith arwyddocaol ar drefniadau teithio o ganlyniad i gynyddu capasiti'r ysgol dan sylw.

## 7.8 Manteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| Digon o le ar gyfer holl blant dalgylch Chwilog i'r dyfodol | Colli rhywfaint o ofod allanol yr ysgol er mwyn lleoli'r dosbarth ychwanegol |
| Bydd dosbarth ychwanegol yn hwyluso cynllunio dosbarthiadau o'r maint cywir i'r dyfodol. | Mae posibilrwydd bydd cynyddu capasiti yn creu problemau parcio/traffig |
| Plant yn gallu cael mynediad at addysg o fewn eu cymuned. | |
| Plant yn gallu cerdded neu beicio i'r ysgol sydd yn gyfrwng i hyrwyddo teithio llesol. | |
| Dim angen cludo plant i ysgolion amgen. | |
| Arbed costau drwy osgoi gorfod darparu cludiant. | |

### 7.9 Risgiau Posibl

| Risg | Effaith bosib | Camau i liniaru'r risg |
|---|---|---|
| Caniatâd cynllunio | Na fydd caniatâd cynllunio yn cael ei gymeradwyo ar gyfer galluogi dosbarth ychwanegol ym 1 Medi 2023 | Cyflwyno cais digon buan |
| Posibilrwydd y bydd creu dosbarth ychwanegol ar safle'r ysgol tra bod yr ysgol yn weithredol yn creu risgiau a pheryglon i'r staff a dysgwyr | Potensial i ddamweiniau ddigwydd | Sicrhau mesurau iechyd a diogelwch cadarn i osgoi unrhyw risg o ddamweiniau o weithio ar safle byw. |
| Mae posibilrwydd bydd cynyddu capasiti yn creu problemau parcio/ a traffig ychwanegol. | Problemau parcio yng nghyffiniau yr ysgol. | Annog teithio llesol I'r ysgol e.e. cerdded a beicio. Monitro'r effaith ar traffig a pharcio gan ymateb i unrhyw faterion sy'n codi. |
| Diffyg lle yn Ysgol Chwilog ar gyfer 2022/23 | Gorfod rhoi mwy o ddysgwyr mewn gofod annigonol dros dro | Defnyddio'r neuadd cymunedol fel gofod ychwanegol dros dro |
| Methu hawlio'r grant refeniw llawn os na fydd y dosbarth ychwanegol wedi ei gwblhau mewn pryd i gyflogi athro am 2 flynedd yng nghyfnod y grant h.y. cyn diwedd Mawrth 2026 | Posibilrwydd o fethu hawlio'r grant refeniw llawn | Sicrhau bod creu dosbarth ychwanegol wedi ei gwblhau ac athro wedi ei benodi cyn Ebrill 2024 |
| Y bydd unrhyw gynnydd mewn costau yn golygu fod y gyllideb yn annigonol | Methu adeiladu dosbarth ychwanegol | Creu dosbarth sydd o fewn y gyllideb gan ymateb yn fuan i unrhyw gynnydd mewn costau |

## 8. Crynodeb o'r Cynnig

Mae'r cynnig hwn yn golygu y byddai Ysgol Chwilog yn cynyddu capasiti i gynnig digon o le i ddysgwyr y dalgylch.

Cynyddu capasiti yr ysgol o 65 i 95 o ddysgwyr drwy ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog i fod yn weithredol 1 Medi 2023

## 9. Egluro'r broses statudol a manylion ymgynghori

Yn ei gyfarfod ar 19 Gorffennaf 2022, cymeradwyodd y Cabinet i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95 o ddysgwyr, sef cynnydd o dros 25% o'r capasiti presennol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Hon yw'r ddogfen ymgynghori sy'n cynnwys manylion y cynnig. Cyhoeddwyd y ddogfen hon ar y **19 Hydref 2022** a gellir derbyn ymatebion tan **13:00 ar ddydd Mawrth 30 Tachwedd 2022.**

Yn ystod yr ymgynghoriad hwn, gall yr ymatebion gynnwys sylwadau neu gwestiynau ar unrhyw agwedd o'r cynnig neu awgrymu opsiynau eraill. Ni fydd yr ymatebion hyn yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau. Os oes unrhyw un yn dymuno gwrthwynebu, rhaid iddynt wneud hynny'n dilyn cyhoeddi'r rhybudd statudol (pe bai un yn cael ei gyhoeddi).

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol hwn, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 byddwn yn cyflwyno adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet er mwyn crynhoi'r sylwadau a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r sylwadau hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad, bydd y Cabinet yn penderfynu p'un ai â ddylid bwrw ymlaen i ryddhau rhybudd statudol ar y cynnig hwn ai peidio. Cyhoeddir yr adroddiad ar wefan y Cyngor a bydd copïau caled ar gael ar gais. Rhoddir gwybod i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr yr ysgol fod yr adroddiad ar gael. Bydd nifer o gynrychiolwyr o asiantaethau eraill yn cael gwybod bod yr adroddiad ymgynghori ar gael, e.e. Estyn, Gweinidogion Cymru, Aelodau Cynulliad perthnasol ac Aelodau Seneddol ayyb.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, bydd yn rhaid i'r cynnig gael ei **gyhoeddi ar ffurf hysbysiad statudol**. Bydd yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd "**cyfnod gwrthwynebu**" o 28 diwrnod o'r dyddiad pan gyhoeddir y cynnig. Ar y cam yma fe all unrhyw un wrthwynebu'r cynnig. Caiff yr hysbysiad ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Gwynedd a hefyd yn agos at brif fynedfa Ysgol Chwilog. Bydd copïau electroneg yn cael eu hanfon at yr ysgolion i'w dosbarthu i ddysgwyr, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr. Bydd copïau caled ar gael ar gais gan y swyddfa moderneiddio addysg.

Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau mewn "Adroddiad Gwrthwynebu". Bydd yr adroddiad gwrthwynebu yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a bydd copïau caled ar gael ar gais. Rhoddir gwybod hefyd i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr Ysgol Chwilog fod yr adroddiad gwrthwynebiadau ar gael. Bydd nifer o gynrychiolwyr o asiantaethau eraill yn cael gwybod bod yr adroddiad gwrthwynebiadau ar gael.

Yn dilyn hynny, bydd Cabinet y Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol ar yr adroddiad gwrthwynebu. Pan fydd y Cabinet wedi cyrraedd ei benderfyniad terfynol, bydd y penderfyniad yn cael ei roi'n ysgrifenedig, ynghyd â rhesymau penodol dros y penderfyniad. Bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, a bydd rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr Ysgol Chwilog yn cael gwybod am y penderfyniad. Bydd nifer o gynrychiolwyr o asiantaethau eraill hefyd yn cael eu hysbysu am y penderfyniad.

## 10. Amserlen Arfaethedig

| Dyddiad | Cam |
|---|---|
| **19 Gorffennaf 2022** | **Cabinet:** Caniatâd i gynnal ymgynghoriad statudol |
| **19 Hydref 2022** | **Cychwyn cyfnod ymgynghori statudol:** O leiaf 42 diwrnod i'r ymgynghorai ymateb, o leiaf 20 diwrnod o'r dyddiau rheiny yn ddyddiau ysgol. |
| **30 Tachwedd 2022** | **Dyddiad cau'r ymgynghoriad statudol:** Dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau ar y cynnig |
| **Ionawr 2023** | **Cabinet:** Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, bydd adroddiad ar yr ymatebion yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet. Bydd y Cabinet yn trafod yr adroddiad a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan y Cyngor. |
| **Chwefror 2023** | **Cyhoeddi rhybudd statudol:** Os bydd y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, cyhoeddir hysbysiad statudol ac fe gynhelir cyfnod gwrthwynebu. Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad o fewn y cyfnod gwrthwynebu 28 diwrnod. |
| **Ebrill 2023** | **Cabinet:** Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, bydd y Cabinet yn trafod yr adroddiad gwrthwynebiadau a phenderfynu a ddylid cadarnhau'r cynnig ai peidio. |
| **Mai 2023** | **Cyfeirio'r penderfyniad i Weinidogion Cymru:** Yn unol ag adran 54 o Ddeddf 2013, o fewn 28 diwrnod i benderfyniad y Cabinet, gall y cyrff canlynol gyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru i'w benderfynu:<br>Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;<br>Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni;<br>Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;<br>Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;<br>Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arni. |
| **Mai – Awst 2023** | Lleoli dosbarth ychwanegol ar safle Ysgol Chwilog. |
| **1 Medi 2023** | **Gweithredu'r cynnig:** Cynyddu capasiti yr ysgol o 65 i 95 o ddysgwyr. |